LANFLR5

Cynllunio ac adeiladu dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig ar gyfer eu gwerthu

Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â chynllunio a chreu dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig ar gyfer eu gwerthu. Bydd dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig yn cynnwys dyluniadau ar gyfer digwyddiadau mawr, dyluniadau ar raddfa fawr, dyluniadau pwrpasol. Bydd yn cynnwys defnyddio technegau cymhleth, ystod eang o ddeunydd creu a graddfeydd amser amrywiol. Bydd hyn yn cynnwys ehangu’r ddealltwriaeth o ddamcaniaeth flodau a meistroli technegau cyfoes a mecanweithiau dylunio.

Bydd hyn hefyd yn cynnwys y Gwerthwr Blodau Datblygedig yn gweithio ar gynlluniau, creu dyluniadau a gwerthuso creadigaethau, yn ogystal â rheoli personél i helpu i fodloni anghenion y busnes blodeuwriaeth.

Wrth gynnal yr holl waith dylid ystyried yr effaith ar yr amgylchedd.

Mae’r NOS hwn yn addas ar gyfer Gwerthwr Blodau Datblygedig â chyfrifoldebau rheoli

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. Cadarnhau bod archebion cwsmeriaid/cleientiaid wedi cael eu dehongli yn unol â gofynion y cwsmer, gallai hyn gynnwys briff y cwsmer, cyllideb/cost, diben, amser ar gyfer creu ac unrhyw broblemau posibl a allai godi
2. Cadarnhau bod yr offer, y cyfarpar a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) gofynnol wedi cael eu dewis, eu paratoi a'u cynnal a'u cadw'n ddiogel
3. Datblygu, gweithredu a gwerthuso cynlluniau hyfforddi ar gyfer yr holl bersonél sydd yn gysylltiedig â chynllunio a chreu dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig gwahanol
4. Creu brasluniau datblygedig a chynlluniau wedi'u labelu lle bo angen a ddefnyddir i fodloni anghenion y cleient
5. Cynllunio dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig gan ystyried addasrwydd ar gyfer y diben a fwriadwyd a'r defnydd priodol o'r deunyddiau
6. Rheoli datblygiad dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig gan ddefnyddio'r Sgema Dylunio, ffynonellau ysbrydoliaeth, creadigrwydd ac arloesedd, tra'n ystyried gofynion y cleient
7. Datblygu a chymhwyso cysylltiad lliw a symboliaeth mewn dyluniadau priodol
8. Datblygu a dylunio cyfeiriadau meistrolaeth, syniadau, lliwiau, cyfansoddiadau a thechnegau
9. Datblygu eich arddull dylunio eich hun gan ganolbwyntio ar ysbrydoliaeth, technegau a dulliau
10. Ymchwilio, gweithredu a gwerthuso'r defnydd o dueddiadau presennol yn y busnes blodeuwriaeth
11. Creu dyluniadau blodau a phlanhigion gan gyfeirio at gyfnodau dylunio hanesyddol a deunyddiau planhigion yn ymwneud â'r cyfnod hwnnw o hanes
12. Datblygu cynlluniau ar gyfer digwyddiadau a chleientiaid corfforaethol gan weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r busnes blodeuwriaeth
13. Cadarnhau bod cynlluniau a dyfynbrisiau/amcangyfrifon wedi cael eu cyfleu i'r cwsmer a bod unrhyw adborth wedi cael ei weithredu
14. Rheoli'r gwaith o gael gafael ar ddeunyddiau i fodloni anghenion y busnes blodeuwriaeth
15. Rheoli'r gwaith o greu dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig gan sicrhau cymhwyso Elfennau ac Egwyddorion dylunio perthnasol
16. Cadarnhau bod y deunyddiau botanegol ffres yn cael eu trin mewn ffordd sydd

yn lleihau gwastraff, niwed a halogiad
17. Cadarnhau bod y dyluniad blodau a phlanhigion datblygedig yn cael eu gwerthuso'n feirniadol gan gyfeirio at hyfywedd masnachol a chrefftwaith
18. Ymchwilio, gweithredu a gwerthuso technegau lapio a chyflwyno newydd ar gyfer dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig
19. Rheoli, monitro a gwerthuso polisïau rheoli gwastraff, gan sicrhau bod ymarfer cynaliadwy yn amlwg
20. Gwneud yr holl waith yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg a pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. Sut i ddehongli archebion cwsmeriaid/cleientiaid yn unol â gofynion cwsmeriaid, gallai hyn gynnwys briff y cwsmer, cyllideb/cost, diben, amser ar gyfer creu ac unrhyw broblemau posibl a allai godi
2. Sut i sicrhau bod yr offer, y cyfarpar a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) gofynnol wedi cael eu dethol, eu paratoi a'u cynnal a'u cadw'n ddiogel
3. Sut i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso cynlluniau hyfforddiant ar gyfer yr holl bersonél sydd yn gysylltiedig â chynllunio dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig
4. Sut i greu brasluniau datblygedig a chynlluniau wedi'u labelu lle bo angen, i ddangos cysyniadau fydd yn cael eu defnyddio i fodloni anghenion y cleientiaid
5. Pwysigrwydd dylunio dyluniad blodau a phlanhigion datblygedig sydd yn ystyried yr addasrwydd ar gyfer y diben a fwriadwyd a defnydd priodol o ddeunyddiau
6. Sut i ddatblygu dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig gan ddefnyddio'r Sgema Dylunio, ffynonellau ysbrydoliaeth, creadigrwydd ac arloesedd, tra'n ystyried gofynion y cleient
7. Sut i ddatblygu a chymhwyso cysylltiad lliw a symboliaeth yn y dyluniad priodol
8. Sut i ddatblygu eich arddull dylunio eich hun ar gyfer dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig
9. Sut i ymchwilio, gweithredu a gwerthuso'r defnydd o dueddiadau presennol yn y busnes blodeuwriaeth
10. Hanes dylunio blodau yng nghyd-destun cyfnodau a'u nodweddion penodol a sut maent yn llywio arddulliau ac arferion dylunio presennol
11. Y gwahaniaeth rhwng cynrychioli dyluniad yn hanesyddol gywir a dyluniadau dehongliadol
12. Sut i reoli datblygiad cynlluniau ar gyfer digwyddiadau a chleientiaid corfforaethol sydd yn gweithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r busnes
13. Sut i sicrhau bod cynlluniau a dyfynbrisiau/amcangyfrifon wedi eu cyfathrebu'n gywir i'r cwsmer a bod unrhyw adborth wedi cael ei weithredu
14. Sut i reoli'r gwaith o gael gafael ar deunyddiau sydd yn bodloni anghenion y busnes blodeuwriaeth
15. Sut i greu dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig gan gymhwyso Egwyddorion ac Elfennau perthnasol dylunio
16. Sut i greu dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig gan ddefnyddio'r

technegau perthnasol
17. Sut i drin deunyddiau botanegol ffres mewn ffordd sydd yn lleihau gwastraff, niwed a halogiad
18. Sut i werthuso dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig yn feirniadol gan gyfeirio at hyfywedd masnachol a chrefftwaith
19. Sut i ymchwilio, gweithredu a gwerthuso technegau lapio a chyflwyno ar gyfer dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig
20. Sut i reoli, monitro a gwerthuso polisïau rheoli gwastraff i sicrhau bod ymarfer cynaliadwy yn amlwg
21. Pwysigrwydd cadarnhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch berthnasol, gofynion asesu risg a pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

Cwmpas/Ystod

Cynllunio a chreu'r dyluniadau blodau a phlanhigion canlynol i lefel ddatblygedig, gan ddefnyddio graddfa uchel o gymhlethdod gan gymhwyso Egwyddorion ac Elfennau perthnasol dylunio:

1. Dyluniadau wedi eu clymu
2. Dyluniadau mewn cyfrwng/ffynhonnell ddŵr
3. Dyluniadau wedi eu plannu
4. Dyluniadau wedi eu gludo
5. Dyluniadau wedi eu rhwymo â weiren

Creu dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig gan ddefnyddio'r technegau canlynol:

1. Sefydlu
2. Rhwymo
3. Dal mewn cawell
4. Gludo
5. Grwpio
6. Haenu
7. Hoelio
8. Plethu
9. Crychu/plygu
10. Rholio/cwpanu
11. Troelli
12. Styffylu
13. Tapio
14. Pwytho
15. Clymu a rhwymo
16. Rhoi dan len
17. Gwehyddu
18. Rhwymo â weiren
19. Lapio

Geirfa

Deunydd Botanegol ffres: Planhigion, blodau wedi eu torri, deiliach wedi eu torri.

Dull enwi: Y ffordd y caiff deunyddiau botanegol eu hadnabod gan ddefnyddio eu Genws, rhywogaethau a cyltifar/amrywiad.

Elfennau dyluniadau blodau: Lliw, Ffurf, Llinell, Gofod, Gwead

Egwyddorion dyluniad blodau: Cydbwysedd, Cyferbyniad, Uchafiaeth, Cytgord, Cyfran, Rhythm, Graddfa

Ffynonellau ysbrydoliaeth: botaneg, diwylliant, emosiwn, dyluniad, crefft/techneg, economaidd/cyllideb

Sgema Dylunio yn cynnwys:

- Categori Trefn: Cymesuredd/Anghymesuredd
- Trefniant: Addurnol/llystyfiannol/ffurf-linellol
- Trefniant Llinell Flodau: Cyfochrog/rheiddiol/llinell rydd
- Lleoliad blodau: Dwysedd/ Dosbarthiad amrywiol /Wedi eu gwasgaru ar hap / Rhes a llinellau / Grwpio

Cyfnodau Hanesyddol wedi eu rhestru: Eifftaidd, Groegaidd a Rhufeinig, Tsieina Hynafol, Canoloesol, Dadeni Eidalaidd, Ffleminaidd Iseldiraidd, Baróc, Rococo, Cyfnod Trefedigaethol America, Sioraidd, Fictoraidd, Edwardaidd ac Art Nouveau, 1920 a 1930au, Art Deco

Yn Gywir yn Hanesyddol
Yn Ddehongliadol

LANFLR5

Cynllunio ac adeiladu dyluniadau blodau a phlanhigion datblygedig ar gyfer eu gwerthu

Datblygwyd gan	Lantra
Dyddiad cymeradwyo	12 Ebr 2021
Dyddiad Adolygu Dangosol	12 Ebr 2026
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANFLR5; LANFLR7; LANFLR8
Galwedigaethau perthnasol	Gwerthwr Blodau Datblygedig
Cyfres/Set	Blodeuwriaeth
Geiriau Allweddol	Blodau; planhigion; creu; gwerthwr blodau; gwerthu blodau; dull enwi; heneiddiad;